

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Hosbis Tŷ'r Eos

Dyddiad yr arolygiad: 29 a 30

Mawrth 2022

Dyddiad cyhoeddi: 1 Gorffennaf

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	18
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	26
4.	Beth nesaf?	38
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	39
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	40
	Atodiad B – Cynllun gwella	41

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisiâu a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad o Hosbis Tŷ'r Eos, Wrecsam, ar 29 a 30 Mawrth 2022. Rhoddwyd 24 awr o rybudd i'r lleoliad am yr arolygiad oherwydd ystyriaethau COVID-19.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, un adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol yn gyffredinol.

Gwnaeth y cleifion a'u perthnasau a gymerodd ran yn yr arolygiad sylwadau cadarnhaol ar y gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi eu hasesu gan staff, a oedd yn monitro'r cleifion yn rheolaidd er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Gwelsom fod newidiadau diweddar wedi bod o fewn y tîm rheoli. Adroddodd rhai aelodau o staff ddiffyg cefnogaeth gan y sefydliad, a dirywiad yn y berthynas rhwng y rheolwyr a'r staff o ganlyniad i rai o'r newidiadau hyn.

Canfuom ychydig o dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl reoliadau ym mhob maes. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y prif adroddiad.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dull amlddisgyblaethol o ddarparu gofal
- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf
- Cynllunio ac asesu gofal
- Ffeiliau gofal hawdd eu defnyddio
- Amgylchedd cyfforddus sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Gwasanaethau cymorth, therapïau a chyfleusterau
- Archwilio a llywodraethu clinigol

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r meysydd canlynol:

- Cynnwys gwybodaeth gyswllt AGIC yn y datganiad o ddiben a'r ffolder gwybodaeth i gleifion

- Sicrhau bod fformat y dogfennau yn y ffeiliau a gedwir yn ystafelloedd y cleifion yn canolbwyntio ar yr unigolyn i adlewyrchu sut y darperir gofal a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â dogfennaeth y cynllun gofal
- Sicrhau bod staff allweddol yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y tîm aml-ddisgyblaethol i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei rhannu'n gywir ac yn fanwl
- Adlewyrchu trefniadau cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn fanwl yn nodiadau gofal y cleifion
- Rhannu trefniadau rhyddhau gyda'r staff sy'n gweithio ym maes gofal dydd er mwyn iddynt allu cynllunio'r gwasanaethau gofal dydd o amgylch anghenion cleifion unigol
- Arddangos y weithdrefn gwyno
- Rhai agweddau ar reoli meddyginiaethau
- Parhau i fonitro lefelau staffio ac anghenion hyfforddi'r staff
- Adolygu a myfyrio ar ymatebion llai ffafriol y staff i rai o'r cwestiynau yn yr arolwg ar-lein

Nodwyd achosion o dorri rheoliadau gennym yn ystod yr arolygiad hwn o ran agweddau ar gadw cofnodion, rheoli meddyginiaeth a hyfforddi staff. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfedd â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Hosbis Tŷ'r Eos wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol. Mae'r hosbis wedi'i gofrestru i ddarparu gofal lliniarol arbenigol i bobl dros 18 oed. Uchafswm nifer y cleifion mewnol y gellir eu lletya ar unrhyw un adeg yw 16 ac uchafswm nifer y bobl a all fynychu'r hosbis am ofal dydd ar unrhyw adeg yw 15.

Agorwyd Hosbis Tŷ'r Eos yn 1995 ac fe'i cofrestrwyd gydag AGIC yn dilyn gweithredu Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol (sydd hefyd yn unigolyn cyfrifol enwebedig yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011), y rheolwr / arweinydd clinigol, meddygon, yr uwchymarferydd nyrsio, nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth i deuluoedd, gweithwyr cymorth gofal iechyd, a staff/rheolwyr ansawdd ac addysg, cyllid a chodi arian, adnoddau dynol, gweinyddu, cadw tŷ, domestig, a chynnal a chadw. Cefnogir yr hosbis hefyd gan dîm o wirfoddolwyr, therapyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol y GIG. Darperir ystod o wasanaethau, sy'n cynnwys:

- Therapïau a thriniaethau, gan gynnwys ffisiotherapi, gofal lliniarol, a rheoli poen a symptomau
- Cefnogaeth emosiynol a gwasanaethau cwnsela, gan gynnwys profedigaeth a chymorth i deuluoedd
- Cefnogaeth ysbrydol/caplaniaeth
- Therapi cyflenwol, hydrotherapi, therapi galwedigaethol a ffisiotherapi
- Therapi creadigol, gan gynnwys celf a chrefft
- Clinig cleifion allanol

Darperir llety i gleifion mewn dwy gilfan â phedwar gwely yr un ac wyth ystafell sengl. Roedd y cilfannau pedwar gwely yn cael eu defnyddio fel ystafelloedd sengl neu ddwbl i sicrhau cadw pellter cymdeithasol digonol ac i leihau'r risg o groes-heintio. Roedd yna hefyd dair ystafell wely wedi'u neilltuo ar gyfer perthnasau sy'n dymuno aros dros nos i fod yn agos at eu hanwyliaid. Roedd gwaith ar adnewyddu rhannau o'r hosbis wedi'i gwblhau'n ddiweddar ac roedd gwaith adnewyddu mwy sylweddol wedi'i gynllunio.

Roedd deg claf yn cael eu lletya ar adeg yr arolygiad ac roedd tua phump o bobl yn mynychu'r uned gofal dydd ar y ddau ddiwrnod.

Arolygodd AGIC y gwasanaeth yn flaenorol ar 24 a 25 Gorffennaf 2018. Aethpwyd ar drywydd y meysydd i'w gwella a amlygwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol yn ystod yr arolygiad hwn a chadarnhawyd eu bod wedi'u gweithredu.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Mynegodd y cleifion a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad, a'r rhai a lenwodd yr holiadur, foddhad â'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn modd urddasol, pwyllog, calonogol a pharchus.

Roedd amgylchedd cyfan yr hosbis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn lân ac yn daclus.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â chleifion a'u perthnasau a oedd yn ymweld yn ystod yr arolygiad.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r holl staff yn ardderchog, wedi'u hyfforddi'n dda, yn broffesiynol, yn garedig, ac yn llawn cydymdeimlad.”

“Derbyniais ofal gwych gan yr holl staff fel claf mewdol ac mewn gwasanaethau gofal dydd (gan gynnwys therapi cyfannol). Cydbwysedd perffaith o broffesiynoldeb a chyfeillgarwch – does dim byd yn ormod o drafferth.”

“Mae'r gofal a'r gwasanaeth yn hollol wych.”

“Methu rhoi sgôr uwch iddo – da iawn.”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion gyda'r staff yn rhoi sylw i anghenion cleifion mewn modd synhwyrol a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt

eu hunain er mwyn cynnal eu hannibyniaeth. Hefyd, gwelsom y staff yn cynnwys cleifion mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gweithgareddau bob dydd.

Gwelsom fod y gofal a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ddiogel ac yn effeithiol, gyda gofal y cleifion, yn ogystal â darparu cymorth i'w perthnasau/gofalwyr, yn brif flaenoriaethau i'r staff.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd trefniadau cadw tŷ a chynnal a chadw da ar waith. Roedd y mannau cymunol a'r ystafelloedd y gwnaethom edrych arnynt yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar gael i helpu i atal heintiau rhag lledaenu.

Roedd yr holl gleifion yn cytuno mewn ymatebion i'r holiaduron bod y lleoliad yn lân ac yn daclus.

Urddas a pharch

Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas a thosturi gan y tîm staff.

Gwelsom y staff yn bod yn garedig ac yn barchus tuag at y cleifion. Gwelsom y staff yn ymdrechu i amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion wrth ddarparu cymorth gydag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal.

Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn cael gofal da ac roedd y staff yn rhoi sylw arbennig i ymddangosiad a dillad y bobl. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu cefnogi i newid eu dillad nos yn ystod y dydd er mwyn cynnal urddas a hybu annibyniaeth.

Roedd yr amgylchedd wedi'i gynllunio'n feddylgar; roedd yr ystafelloedd yn helaeth ac wedi'u dodrefnu a'u haddurno i safon dda iawn. Roedd gan y cleifion a'u perthnasau fynediad i lolfeydd cymunol / mannau bwyta a chapel anenwadol ac roedd lolfeydd / ardaloedd eistedd llai ar gyfer pobl y mae'n well ganddynt amgylchedd mwy preifat. Gallai perthnasau aros dros nos, naill ai gyda'r claf neu mewn ystafell benodedig ar gyfer perthnasau. Roedd gardd gaeedig ganolog a dymunol a man eistedd y tu allan i'r cleifion a'r ymwelwyr eu defnyddio.

Roedd gan ystafelloedd y cleifion gyfleusterau cawod en suite. Roedd digon o le yn yr ystafelloedd ymolchi cymunol ac roedd digon o offer ynddynt.

Cynigiwyd y cyfle i'r cleifion gymryd rhan mewn gweithgareddau a therapi grŵp a/neu unigol.

Drwy gydol yr arolygiad, roedd yr amgylchedd yn dawel, yn heddychlon ac yn ymlaciol.

Dywedodd bron pob un o'r staff a gyfrannodd at yr arolygiad wrthym fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Mae gan yr hosbis ddatganiad o ddiben ar waith. Fodd bynnag, mae angen diwygio'r datganiad o ddiben i gynnwys manylion cyswllt AGIC.

Roedd y ffolder gwybodaeth i gleifion, a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael a datganiad cenhadaeth a nodau'r hosbis. Roedd copïau o'r ffolder gwybodaeth i gleifion ar gael ym mhob ystafell wely ac fe'u cyflwynir i'r cleifion pan gânt eu derbyn i'r hosbis fel rhan o becyn croeso. Fodd bynnag, buom yn trafod yr angen i fanylion cyswllt AGIC gael eu cynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion.

Mae'r hosbis hefyd yn cynhyrchu cylchlythyr sy'n cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau codi arian, datblygiadau, a gwybodaeth ddefnyddiol arall.

Roedd gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd a phamffledi ar gael mewn gwahanol rannau o'r hosbis.

Roedd Bwrdd Cypolwg ar Statws Cleifion¹ wedi'i leoli yn swyddfa'r nyrsys. Roedd yr hysbysfwrdd wedi'i gynllunio fel y gellid gorchuddio enwau'r cleifion pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cyfrinachedd cleifion.

Dywedodd mwyafrif y staff a gyfrannodd at yr arolygiad wrthym fod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion.

¹ Mae'r Bwrdd Cypolwg ar Statws Cleifion yn ffordd glir a chyson o arddangos gwybodaeth am gleifion o fewn wardiau ysbytai.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod manylion cyswllt AGIC yn cael eu cynnwys yn y datganiad o ddiben a'r ffolder gwybodaeth i gleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r cleifion a'u perthnasau mewn modd tawel ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion yn ôl eu henwau dewisol. Gwelwyd y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd calonogol a chynhwysol.

Cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion yn yr holiaduron eu bod wedi cael cynnig yr opsiwn i gyfathrebu â staff yn eu dewis iaith.

Fe'n hysbyswyd nad oedd llawer o'r cleifion sy'n defnyddio'r hosbis yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, byddai trefniadau yn cael eu gwneud i sicrhau gwasanaethau cyfieithu pe cyfyd yr angen. Gellid hefyd gael mynediad at wasanaethau cyfieithu, pe bai angen, ar gyfer cleifion eraill nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Roedd dolen glyw symudol ar gael i gynorthwyo'r cleifion ac ymwelwyr â nam ar y clyw.

Mae'r staff yn ymwybodol iawn o'r sensitifrwydd sydd ei angen o ran cyfathrebu â'r cleifion. Mae ardal glinigol yr hosbis wedi'i sefydlu gyda nifer o fannau preifat i deuluoedd, gofalmwyr, cleifion a staff eu defnyddio i fwyafu urddas a phreifatrwydd y cleifion wrth gyfathrebu.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion yn dda ar y cyfan. Gwelsom dystiolaeth fod asesiadau cynhwysfawr o anghenion gofal yn cael eu cynnal a bod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Roedd cynlluniau gofal hefyd yn fanwl ac roedd adolygiadau a diweddariadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd y gwerthusiadau ysgrifenedig a gwblhawyd gan y staff gofal ar ddiwedd pob shift yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y gofal a ddarperir.

Roedd y ddarpariaeth gofal yn amlwg yn seiliedig ar anghenion penodol ac amrywiol y claf. Roedd gan y cynlluniau gofal fformat a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac roeddent wedi'u hysgrifennu o safbwynt y claf. Fodd bynnag, nid oedd fformat rhai o'r dogfennau yn y ffeiliau a gadwyd yn ystafelloedd y cleifion

yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Dylid adolygu a diwygio'r rhain i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â dogfennaeth y cynllun gofal.

Dywedodd pob aelod o staff a gyfrannodd at yr arolygiad wrthym fod y cleifion a/neu eu perthnasau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

Roedd poen yn cael ei rheoli mewn modd priodol gydag asesiadau ffurfiol yn cael eu cynnal, eu cofnodi a'u hadolygu'n rheolaidd. Roedd siartiau rheoli poen yn cael eu cadw gyda siartiau rhoi meddyginiaeth y cleifion fel y gellid cyfeirio atynt a'u diwygio ar yr adeg y rhoddwyd meddyginiaeth lleddfu poen.

Roedd y cleifion yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal eu hunain, cyn belled ag y bo modd. Pan nad oedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gwelsom yr ymgynghorir â pherthnasau a'u bod yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau ynghylch darparu gofal.

Gwelsom fod y tîm amlddisgyblaethol yn darparu gofal unigol i'r cleifion yn unol â'u hanghenion asesedig. Roedd cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal bob wythnos i drafod unrhyw newidiadau yn anghenion gofal y cleifion. Fodd bynnag, mynegodd rhai aelodau o staff bryder ynghylch pwy oedd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn a bod risg na fyddai gwybodaeth yn cael ei rhannu'n gywir pe na bai rhai aelodau o staff yn cael eu gwahodd.

Dywedwyd wrthym fod rowndiau bwrdd dyddiol² yn digwydd a bod sgrymiau diogelwch dyddiol yn cael eu cyflwyno fel ffordd bellach o rannu gwybodaeth am ofal cleifion.

Cyflogwyd arweinydd llif cleifion, a chwblhawyd siartiau llif cleifion i helpu i reoli'r broses o dderbyn a rhyddhau cleifion.

Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer atgyfeirio newidiadau yn anghenion cleifion at weithwyr proffesiynol eraill megis y nyrs hyfywedd meinwe arbenigol a'r deietegydd.

Ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn derbyn gofal seibiant, gwelsom fod systemau cynllunio da iawn ar waith ar gyfer rhyddhau cleifion, gyda'r cleifion yn cael eu

² Mae rowndiau bwrdd yn drafodaeth gryno ar daith y claf a'r hyn sydd ei angen y diwrnod hwnnw er mwyn iddi symud ymlaen. Maent yn nodi ac yn datrys unrhyw faterion gofal, triniaeth neu oedi mewn perthynas ag arhosiad y claf yn y lleoliad.

hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill megis ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol cyn gadael yr hosbis. Fodd bynnag, nid oedd y trefniadau cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion bob amser yn cael eu hadlewyrchu'n fanwl yn y nodiadau gofal cleifion a arolygwyd gennym. Yn ogystal, dywedodd staff wrthym y gellid gwella trefniadau rhyddhau trwy gyfathrebu'n well â'r uned gofal dydd ar gyfer y cleifion hynny sy'n symud o ofal cleifion mewnol i ofal dydd. Byddai hyn yn galluogi staff i gynllunio'r gwasanaethau gofal dydd yn well o amgylch anghenion cleifion unigol.

Mae'r tîm yn Nhŷ'r Eos yn gweithio mewn ymgynghoriad â thîm gofal lliniarol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Felly, gall staff gael cymorth a chynghor arbenigol pan fo angen, er enghraifft gan feddygon ymgynghorol gofal lliniarol, fferyllwyr a deietegwyr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:

- bod fformat y dogfennau yn y ffeiliau a gedwir yn ystafelloedd y cleifion yn canolbwyntio ar yr unigolyn i adlewyrchu sut y darperir gofal a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â dogfennaeth y cynllun gofal
- bod staff allweddol yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei rhannu'n gywir ac yn fanwl
- bod trefniadau cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn cael eu hadlewyrchu'n fanwl yn nodiadau gofal y claf
- bod staff sy'n gweithio yn yr uned gofal dydd yn cael gwybod am y trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion er mwyn iddynt allu cynllunio'r gwasanaethau gofal dydd o amgylch anghenion cleifion unigol

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod y staff yn ymdrechu i ddarparu gofal mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn hawliau'r cleifion.

Roedd y staff yn ymwybodol o anghenion gofal a dymuniadau cleifion unigol a gwelwyd eu bod yn eu trin fel unigolion. Fodd bynnag, dywedodd dau aelod o staff, a gyfrannodd at yr arolygiad, wrthym eu bod wedi gweld yr hyn yr oeddent yn ei weld yn wahaniaethu yn erbyn claf â phroblemau iechyd meddwl o fewn y 12 mis diwethaf. Cyfeirir at hyn yn fanylach yn adran 'Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu' yr adroddiad hwn.

Gwelsom fod y staff yn amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau i ystafelloedd gwely ar gau pan oedd gofal yn cael ei ddarparu.

Roedd asesiadau galluedd meddyliol a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid³ yn cael eu cynnal yn ôl yr angen.

Roedd trafodaethau cynllunio gofal uwch, i gynnwys penderfyniadau dadebru, yn cael eu cynnal gyda chleifion a'u cynrychiolydd teulu penodedig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn cleifion.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Cyfeiriwyd at weithdrefnau pryderon a chwynion yr hosbis yn y datganiad o ddiben, y ffolder gwybodaeth i gleifion ac ar y wefan. Argymhellwyd gennym y dylid hysbysebu'r weithdrefn gwyno mewn ffordd fwy gweladwy trwy ddarparu posteri mewn mannau amlwg yn yr hosbis a thrwy ddarparu taflenni gwybodaeth ar wahân yn manylu ar sut i leisio pryder neu wneud cwyn.

Dyweddodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a dderbyniwyd am y gwasanaeth yn isel iawn ac mai'r nod oedd datrys problemau cyn gynted â phosibl er mwyn atal unrhyw uwchgyfeirio.

³ Mae'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ac yn darparu modd o amddifadu rhywun o'i ryddid yn gyfreithlon naill ai mewn ysbyty neu gartref gofal, os yw hynny er eu lles gorau a dyma'r ffordd leiaf rhwystrol o gadw'r unigolyn yn ddiogel rhag niwed.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn cael ei hysbysebu mewn ffordd fwy amlwg yn yr hosbis.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y tîm o staff wedi ymrwymo i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd offer addas ar gael ac yn cael eu defnyddio i helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso a'u hatal rhag cwmpo.

Roedd yr hosbis yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaeth ffurfiol ar waith.

Roedd anghenion gofal cleifion wedi'u hasesu gan staff ac roedd staff yn monitro cleifion er mwyn hyrwyddo'u llesiant a'u diogelwch.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd asesiadau risg ac archwiliadau clinigol cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r perygl o niwed i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Wrth archwilio sampl o gofnodion gofal y cleifion, gwelsom fod asesiadau risg ar gyfer manau pwyso yn cael eu cynnal ar adeg derbyn y cleifion a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd hyn hefyd yn wir mewn perthynas ag asesiadau risg ar gyfer cwmpo.

Gwelsom fod rhai biniau gwaredu eitemau miniog yn fwy na thri chwarter llawn, nad yw'n adlewyrchu canllawiau arfer da ac felly'n peri risg o niwed i staff. Daethom â hyn i sylw'r arweinydd clinigol, a gymerodd gamau ar unwaith i newid y biniau.

Gwelsom hefyd nad oedd nodwyddau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio yn yr hosbis. Roedd hyn yn cynyddu'r risg o niwed i staff a chleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod nodwyddau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio yn yr hosbis i leihau'r risg o niwed i staff a chleifion.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith a gefnogwyd gan amserlenni glanhau manwl.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod staff yn cadw at y polisi ac egwyddorion arfer da. Roedd canlyniadau archwiliadau o'r fath yn cael eu harddangos yn yr hosbis i'r cleifion a'r ymwelwyr eu gweld.

Roedd y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol fel menig, masgiau wyneb a ffedogau untro yn ddiogel er mwyn lleihau croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd orsafoedd glanhau dwylo wedi'u gosod yn strategol ger mynedfeydd/allanfeydd i staff ac ymwelwyr eu defnyddio, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn gwneud profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos a bod yn rhaid i gleifion, tan yn ddiweddar, wneud prawf adwaith cadwynol polymeras (PCR) cyn cael eu derbyn. Fodd bynnag, wrth i rai cyfyngiadau COVID-19 gael eu codi, nid oes angen hyn mwyach gyda chleifion yn gorfod gwneud profion llif unffordd yn lle hynny.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gyfrannodd at yr arolygiad wrthym fod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith a bod y sefydliad wedi rhoi'r newidiadau amgylcheddol ac arferion angenrheidiol ar waith mewn ymateb i bandemig COVID-19. Cadarnhaodd y staff hefyd fod cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol, a bod trefniadau dihalogi ar gyfer offer a manau perthnasol yn yr hosbis.

Gwelsom fod llwch yn cronni y tu ôl i rai gorchuddion rheiddiaduron gan nad oedd yn hawdd tynnu'r gorchuddion i'w glanhau'n effeithiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y gellir tynnu gorchuddion y rheiddiaduron yn hawdd er mwyn eu glanhau'n effeithiol.

Maeth

Wrth archwilio sampl o ffeiliau gofal claf, gwelsom fod anghenion bwyta ac yfed cleifion wedi cael eu hasesu wrth eu derbyn i'r hosbis, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion, gyda jygiau dŵr a diodydd ar gael ger y gwelyau.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal a gwelsom fod siartiau monitro'n cael eu defnyddio yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau bod cleifion yn bwyta ac yn yfed yn briodol.

Gwelsom brydau amser cinio'n cael eu gweini a gwelsom y staff yn annog ac yn cynorthwyo cleifion i fwyta'n annibynnol.

Lle'r oedd yn briodol, roedd perthnasau'n cael eu hannog i ymweld yn ystod amser bwyd i roi cymorth a chefnogaeth i gleifion gyda'u prydau bwyd. Roedd perthnasau hefyd yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn agweddau eraill ar ofal cleifion.

Mae'r holl brydau'n cael eu coginio'n ffres ar y safle bob dydd (gan gynnwys y prydau a weinir yng nghaffi'r hosbis) ac roeddent wedi'u cyflwyno'n dda ac yn flasus iawn yn ôl pob golwg. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn cael amser i fwyta eu bwyd ar eu cyflymder eu hunain a bod dŵr ar gael bob amser.

Canfuom fod system effeithiol ar waith i ddarparu ar gyfer anghenion deietegol unigol cleifion a bod cyfathrebu da rhwng y staff gofal a'r staff arlwyo. Rhoddir bwydlenni i gleifion yn y bore er mwyn dewis yr hyn y maent am ei fwyta yn ystod y dydd. Roedd swydd gwesteiwr wedi'i chyflwyno'n ddiweddar. Roedd y gwesteiwr yn gyfrifol am fonitro anghenion maeth cleifion, cysylltu â'r staff arlwyo, a chynorthwyo cleifion wrth ddarparu prydau a diodydd. Mae'r gwesteiwr hefyd yn gyfrifol am gydlynu a goruchwyllo unrhyw gymorth gwirfoddol y gall fod ei angen yn ystod amser bwyd. Mae hyn yn golygu bod prydau bwyd yn cael eu gweini ar amser ac nad oes rhaid i unrhyw glaf aros am ei brydau bwyd. Roedd y gwesteiwr presennol yn nyrs gofrestrdig a oedd ar fin ymddeol ac roedd ganddi ddi-ddordeb arbennig mewn maeth cleifion.

Yn ogystal â'r brif gegin, roedd ceginau bach yn yr unedau dydd a chleifion mewnol. Roedd y staff yn defnyddio'r rhain i baratoi diodydd a byrbrydau. Roedd cleifion hefyd yn gallu storio eu bwyd a'u diodydd eu hunain mewn oergell ddynodedig.

Dywedwyd wrthym fod y staff arlwyo yn ymatebol iawn i geisiadau unigol gan gleifion ac yn gwneud pob ymdrech i gyflenwi beth bynnag y mae cleifion ei eisiau o ran bwyd a diod.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod prosesau rheoli meddyginiaeth yn gadarn a gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi'n ddiogel i gleifion.

Roedd yr holl staff â chyfrifoldebau am feddyginiaeth wedi'u hasesu i sicrhau eu bod yn gymwys o ran arferion meddyginiaeth diogel. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth a chanfod bod y rhain wedi'u cwblhau'n llawn.

Gwelsom fod systemau ar waith ar gyfer cofnodi a gwirio cyffuriau a reolir yn rheolaidd. Fodd bynnag, canfuom fod y broses braidd yn gymhleth, gyda phedair cofrestr cyffuriau a reolir ar wahân yn cael eu defnyddio, cofrestr wahanol yn cael ei gwirio bob dydd, a phob un o'r pedair yn cael eu gwirio bob tri mis. Dylid adolygu a symleiddio'r broses hon i leihau'r risg o gamgymeriadau neu hepgoriadau.

Asesir y cleifion i ganfod faint o gymorth, os o gwbl, sydd ei angen arnynt i reoli eu meddyginiaeth. Roedd system dosbarthu meddyginiaeth electronig ar waith a oedd yn cael ei monitro gan y fferylllydd a gyflogir gan y bwrdd iechyd. Roedd meddyginiaeth arall, nad oedd yn cael ei storio yn y dosbarthwr electronig, yn cael ei storio'n briodol mewn cypyrddau y gellir eu cloi yn yr ystafell driniaeth, a dim ond y staff oedd yn gallu cael gafael arnynt drwy ddefnyddio cerdyn allwedd neu o fewn troli meddyginiaeth.

Mae fferylllydd yn mynychu'r hosbis ddwywaith yr wythnos i archwilio meddyginiaeth a rhoi arweiniad a chymorth i staff.

Gwnaethom archwilio'r troli dadebru, a oedd yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol pe bai claf yn llewygu. Fodd bynnag, canfuom fod y pecyn anaffylacsis⁴ yn cynnwys meddyginiaeth hydrocortison a clorffenamin, nad ydynt

⁴ Mae anaffylacsis yn adwaith alergaidd difrifol sy'n bygwth bywyd sydd fel arfer yn digwydd o fewn ychydig eiliadau neu funudau i ddod i gysylltiad â sylweddau alergaidd. Mae hyn yn cynnwys llosg dynad, chwyddo, a gostyngiad sydyn yn y pwysedd gwaed ac weithiau sioc.

bellach yn cael eu hargymell fel y driniaeth gyntaf ar gyfer anaffylacsis gan Gyngor Dadebru'r DU.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud y canlynol:

- adolygu'r broses ar gyfer gwirio cyffuriau a reolir i leihau'r risg o gamgymeriadau neu hepgoriadau
- adolygu cynnwys y troli dadebru i sicrhau ei fod yn bodloni canllawiau Cyngor Dadebru'r DU o ran y cyffuriau sydd eu hangen i drin anaffylacsis mewn argyfwng

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig wedi'u sefydlu ac roedd y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad ymwybyddiaeth o brosesau diogelu.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu gweithredol yn yr hosbis ar adeg yr arolygiad.

Rheoli gwaed

Roedd polisi trallwysu gwaed ffurfiol ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen ei adolygu. Cymerodd un o'r nyrsys cymwys rôl arweiniol yn y gwaith o reoli cynhyrchion gwaed ac roedd ganddi gysylltiadau da â'r gwasanaeth trallwysu yn yr ysbyty lleol.

Cesglid gwaed ar gyfer trallwysiad o'r ysbyty lleol yn ôl yr angen a chynhelir gwiriadau priodol a chedwir cofnodion.

Roedd staff a oedd yn ymwneud â'r broses drallwysu wedi derbyn hyfforddiant. Fodd bynnag, canfuom fod angen diweddarau cymwyseddau'r staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud y canlynol:

- adolygu a diweddarau'r polisi trallwysu gwaed

- sicrhau bod staff sy'n ymwneud â'r broses drallwysu yn cynnal asesiadau cymhwysedd rheolaidd

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan yr hosbis amrywiaeth o offer meddygol.

Dywedwyd wrthym fod amserlenni cynnal a chadw a chontractau ar waith ar gyfer gwasanaethu offer. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd sticer na label ar y peiriant sugno ar y troli dadebru yn cadarnhau pryd y cafodd ei wasanaethu ddiwethaf. Yn ogystal, nid oedd gan rai o'r gyrwyr chwistrell sticer na label arnynt yn cadarnhau pryd y cawsant eu gwasanaethu ddiwethaf, a lle'r oedd sticeri ar gael, dangosodd rhai fod dyddiadau cyflwyno'r gwasanaeth wedi dod i ben.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl offer meddygol a ddefnyddir yn yr hosbis yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a bod cofnodion cynnal a chadw / gwasanaethu cyfredol yn cael eu cadw.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

O'n trafodaethau gyda'r staff, a thrwy archwilio dogfennau gofal cleifion, canfuom fod y cleifion yn derbyn gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd tystiolaeth bod gwaith amlddisgyblaethol da iawn yn digwydd rhwng y staff nyrsio, y staff meddygol a'r staff therapi.

Dywedwyd wrthym, i ffurfioli'r broses o reoli sepsis⁵ yn effeithiol, fod y staff gofal yn y broses o roi llwybr gofal Sepsis Six⁶ ar waith.

Dywedwyd wrthym hefyd fod yr arweinydd clinigol wrthi'n sefydlu system ffurfiol i archwilio dogfennaeth gofal a'r gwaith o gymhwyso llwybrau gofal yn rheolaidd.

Gwnaethom argymhell bod proses yn cael ei sefydlu i sicrhau bod arsylwadau dyddiol yn cael eu cynnal, a'u cofnodi, mewn perthynas â'r cleifion hynny y nodwyd y dylid eu huwchgyfeirio neu dderbyn triniaeth bellach pe bai eu cyflwr yn gwaethygu neu'n newid.

Roedd tystiolaeth bod poen yn cael ei rheoli, y cymerwyd camau yn ei chylch, a'i bod yn cael ei gwerthuso'n briodol gan ddefnyddio offer asesu poen. Gwelsom staff yn ymateb yn amserol pan oedd cleifion yn mynegi nad oeddent yn gysurus ac yn gofyn am feddyginiaethau lleddfu poen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod proses wedi'i sefydlu i sicrhau bod arsylwadau dyddiol yn cael eu cynnal, a'u cofnodi, mewn perthynas â'r cleifion hynny y nodwyd y dylid eu huwchgyfeirio neu dderbyn triniaeth bellach pe bai eu cyflwr yn gwaethygu neu'n newid.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

Trwy archwilio cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi derbyn hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Rheoli cofnodion

⁵ Sepsis yw adwaith gan y corff i haint sy'n peryglu bywyd. Mae'n digwydd pan fydd y system imiwnedd yn gorymateb i haint ac yn dechrau niweidio meinweoedd ac organau'r corff ei hun.

⁶ Mae'r llwybr gofal Sepsis Six yn rhan o'r dull a argymhellir gan Ymddiriedolaeth Sepsis y DU o wneud diagnosis o sepsis a'i drin.

Gwelsom systemau gyffredinol dda ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am gleifion a staff yn cael ei chadw'n ddiogel, yn electronig ac ar bapur. Fodd bynnag, gellid gwella hyn ymhellach drwy sicrhau bod y troli sy'n cynnwys nodiadau cleifion yn sownd wrth wal pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Roedd cofnodion gofal cleifion yn cael eu cadw'n dda ac roedd y ffeiliau wedi'u gosod mewn ffordd a oedd yn eu gwneud yn hawdd eu defnyddio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y troli sy'n cynnwys nodiadau cleifion yn sownd wrth wal pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi llywodraethu a rheolaeth yr hosbis. Fodd bynnag, gwelsom fod newidiadau diweddar wedi bod o fewn y tîm rheoli. Adroddodd rhai aelodau o staff ddiffyg cefnogaeth gan y sefydliad, a dirywiad yn y berthynas rhwng y rheolwyr a'r staff o ganlyniad i rai o'r newidiadau hyn.

Mynegodd rhai staff bryderon hefyd am brinder staff a'r defnydd o staff asiantaeth a oedd yn ddibrofiad mewn gofal lliniarol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi llywodraethu a rheolaeth yr hosbis.

Roedd systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod y ffocws ar wella'r gwasanaethau'n barhaus. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol, trwy raglen dreigl o archwilio a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a alluogodd aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Gwnaethom siarad â sawl aelod o staff a chanfod eu bod yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt, ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Mae'r unigolyn cyfrifol (Prif Swyddog Gweithredol) wedi'i leoli yn yr hosbis. Mae hyn yn ei alluogi i fonitro'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn ei wneud yn hygyrch i staff, cleifion a pherthnasau. Mae aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ymweld â'r hosbis yn rheolaidd ac yn llunio adroddiadau fel sy'n ofynnol o dan Reoliad 28.

Roedd gan yr ymddiriedolwyr drosolwg da o'r gwasanaeth trwy eu hymweliadau rheolaidd â'r hosbis a thrwy brosesau adrodd ac uwchgyfeirio'r rheolwyr.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, roedd prosesau eisoes ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau. Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol wedi'i sefydlu ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i nodi yn y datganiad o ddiben, yn y ffolder gwybodaeth i gleifion ac ar y wefan.

Gwelsom fod prosesau ffurfiol ar waith i adrodd ac ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau ac i sicrhau bod y staff yn cael gwybod am yr hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau er mwyn osgoi iddynt ddigwydd eto. Fodd bynnag, canfuom y gellid gwella'r broses drwy gyflwyno ôl-drafodaeth ffurfiol i'r tîm ar ôl dod i gysylltiad â materion neu ddigwyddiadau cymhleth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y cyflwynir proses o ôl-drafodaeth ffurfiol i'r tîm ar ôl dod i gysylltiad â materion neu ddigwyddiadau cymhleth.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol

Dywedwyd wrthym y bu rhywfaint o drosiant staff dros y 18 mis diwethaf a bod pump o staff wedi ymddeol, 14 wedi ymddiswyddo, pump wedi'u diswyddo, dau wedi ymuno â'r tîm Gofal Lliniarol Arbenigol, a 15 wedi gadael am resymau personol / oherwydd eu bod wedi newid gyrfa.

Rheolwyd y broses o recriwtio staff gan dîm Adnoddau Dynol yr hosbis, gan ddilyn polisi a gweithdrefnau recriwtio'r sefydliad. Dywedwyd wrthym fod recriwtio staff yn broses barhaus.

Roedd proses sefydlu ffurfiol ar waith ac mae'r holl staff newydd yn cael adolygiadau cyfnod prawf rheolaidd.

Gwelsom fod mesurau ychwanegol wedi'u sefydlu i gefnogi staff yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau briffio staff rheolaidd, sesiynau galw heibio i staff drafod pryderon, a mynediad at raglenni cymorth i weithwyr.

Yn ogystal â siarad â staff yn ystod yr arolygiad, cyhoeddodd AGIC arolwg ar-lein i gael barn y staff am y gwasanaeth a ddarperir yn yr hosbis a'r cymorth a'r hyfforddiant a gânt. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 48 o ymatebion.

Roedd ymatebion staff yn gymysg ar draws pob maes: roedd y gyfran uchaf o ymatebion cadarnhaol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad, a chwestiynau gofal cleifion, ac roedd y gyfran uchaf o ymatebion negyddol ar gyfer cwestiynau am y sefydliad a'r rheolwyr. Amlygodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod

yr arolygiad a rhai a gwblhaodd yr arolwg ddiffyg cymorth gan y sefydliad, a dirywiad yn y berthynas rhwng y rheolwyr a staff yn dilyn newidiadau diweddar yn y tîm rheoli.

Rhannwyd yr ymatebwyr yn gyfartal o ran argymell a pheidio ag argymell eu hosbis fel lle i weithio. Fodd bynnag, cytunodd y mwyafrif (82%, 36/44) o'r ymatebwyr, pe bai angen cymorth ar ffrind neu berthynas, y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan eu hosbis.

Gwnaethom edrych ar rotâu staff, a oedd yn dangos, ar adeg yr arolygiad, fod rhwng dwy nyrs gymwysedig ar ddyletswydd yn ystod y dydd ynghyd â rheolwr y ward a'r dirprwy, a dwy nyrs gymwysedig ar ddyletswydd gyda'r nos a dros nos. Mae rheolwr y ward a'r dirprwy fel arfer yn gweithio rhwng 8am a 6pm, a 7am a 5pm yn y drefn honno. Mae gan reolwr y ward a'r dirprwy un diwrnod yr wythnos wedi'i ddynodi'n ddiwrnod rheoli. Yn ogystal â'r nyrsys cymwysedig, roedd dau, weithiau tri, cynorthwydd gofal iechyd ar ddyletswydd yn ystod y dydd a dau ar nosweithiau. Fodd bynnag, mynegodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw, a rhai o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg, bryderon ynghylch lefelau staffio a'r defnydd o staff asiantaeth dibrofiad mewn gofal lliniarol.

Roedd 25 aelod o staff a gwblhaodd yr arolwg yn cytuno bod digon o staff i wneud eu gwaith yn iawn ac roedd 21 yn anghytuno. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

“Gallai shiftt a oedd yn cael ei adael yn brin o staff fod wedi bod yn niweidiol i'r staff a'r cleifion, ac ni wiriodd yr un o'r rheolwyr i weld a oedd y staff ... yn ymdopi neu a oeddent yn cael trafferthion.”

“Prinder staff ar shifttiau, sy'n defnyddio gweithwyr asiantaeth yn aml nad oes ganddynt unrhyw brofiad gyda chleifion gofal lliniarol.”

Roedd 33 o ymatebwyr yn cytuno bod cymysgedd priodol o sgiliau ac roedd 15 yn anghytuno.

Dywedodd 32 o ymatebwyr wrthym eu bod yn gallu bodloni'r holl alwadau croes ar eu hamser yn y gwaith ac roedd 16 yn anghytuno.

Roedd 39 o ymatebwyr yn cytuno bod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer digonol i wneud eu gwaith ac roedd naw yn anghytuno.

Dyweddodd 35 o aelodau staff a gwblhaodd yr arolwg wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth da i gleifion ac roedd 12 yn anghytuno.

Gwnaethom adolygu cofnodion hyfforddiant y staff, a oedd yn dangos bod gan staff fynediad at hyfforddiant gorfodol ac arbenigol. Gwelsom fod cyfraddau cwblhau hyfforddiant yn amrywio'n sylweddol a dangoswyd bod angen gwaith i sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau pob agwedd ar hyfforddiant gorfodol.

Gofynnwyd cwestiynau i staff am hyfforddiant yn yr arolwg staff a manylir ar eu hymatebion isod.

Dyweddodd 27 o aelodau staff a gwblhaodd yr arolwg wrthym fod eu rheolwr yn eu cefnogi i gael hyfforddiant, dysgu neu ddatblygiad, a dywedodd 15 nad oeddent yn gwneud hynny.

Teimlai 29 o ymatebwyr eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl, teimlai 15 eu bod wedi'u hyfforddi'n rhannol, a theimlai pedwar nad oeddent wedi cael hyfforddiant priodol oherwydd rhesymau a oedd yn cynnwys amser cyfyngedig ar gyfer hyfforddiant, COVID-19 yn effeithio ar hyfforddiant, ac ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus ar draul personol. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

“Mae COVID-19 wedi rhwystro hyfforddiant.”

“Dydw i ddim yn teimlo bod yr hyfforddiant ar-lein newydd yn dda iawn. Nid yw llawer o'r sesiynau yn berthnasol; mae cwestiynau prawf yn cynnwys deunydd nad yw ar y cwrs. Mae'r sgorio pwyntiau yn fychanu.”

“Mae hyfforddiant gan staff Hosbis Tŷ'r Eos wedi bod yn dda.”

“Mae gan yr hyfforddiant ar-lein newydd lawer o sesiynau nad ydynt yn berthnasol ac sy'n aml yn ddi-fudd; mae'r prawf yn cynnwys cwestiynau nad ydynt yn rhan o'r cwrs. Mae cael cais cyson i sgorio pwyntiau yn anghymhellol ac yn fychanu. Mae rhai sesiynau o gymorth ac mae sesiynau blaenorol a gynhaliwyd gan staff Hosbis Tŷ'r Eos wedi bod yn dda iawn.”

“Does gen i ddim amser i wneud yr hyfforddiant ar-lein. Dim hyfforddiant pellach wedi'i gynnig na'i roi.”

Cawsom rai sylwadau ar hyfforddiant a fyddai'n ddefnyddiol i staff, a ddangosir isod:

“Hyfforddiant gofal lliniarol parhaus i gael yr wybodaeth ddiweddaraf. Hefyd hyfforddiant penodol mewn perthynas â chymorth seicolegol i'r cleifion a'u perthnasau.”

“Diweddariadau hyfforddiant ar reoli symptomau, e.e. poen, cyfog, rhwymedd ac ati, mewn gofal lliniarol arbenigol.”

“Hyfforddiant ar gynllunio gofal uwch.”

“Hyfforddiant ar reoli anaffylacsis.”

“Diweddariad cynnal bywyd sylfaenol.”

“Gofal diwedd oes.”

“Hyfforddiant cemotherapi lliniarol.”

“Mwy o gyrsiau clinigol mewnol.”

“Byddai mwy o hyfforddiant ymarferol yn well yn lle dim ond ar-lein.”

“Byddai sesiynau addysgu rheolaidd yn canolbwyntio ar ofal lliniarol yn ddefnyddiol i bob aelod o staff – nid oes unrhyw addysgu/addysg strwythuredig. Mae bron yr holl ddysgu a wnaed yn y swydd hon wedi bod yn astudiaeth annibynnol.”

Roedd 43 o ymatebwyr yn cytuno bod hyfforddiant yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol a darparu profiad gwell i gleifion, ac roedd pedwar yn anghytuno.

Roedd 45 o ymatebwyr yn cytuno bod hyfforddiant yn eu helpu i gadw'n gyfredol â gofynion proffesiynol ac roedd dau yn anghytuno.

Gwelsom fod mwyafrif y staff wedi derbyn arfarniadau blynyddol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym na chafwyd presenoldeb da mewn cyfarfodydd goruchwyllo clinigol am gyfnod o amser er bod yr arweinydd clinigol wedi rhoi cynnig ar wahanol ddulliau, e.e. cyfarfodydd un-i-un, cyfarfodydd grŵp, amseroedd a dyddiau amrywiol ac ati.

Dywedodd 44 o aelodau staff a gwblhaodd yr arolwg wrthym eu bod wedi cael adolygiad neu arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf, nad oedd tri ohonynt, ac ni allai un gofio.

Dywedodd 35 o ymatebwyr fod anghenion hyfforddi, dysgu neu ddatblygu wedi'u nodi yn ystod yr arfarniad, a dywedodd deg nad oeddent.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud y canlynol:

- parhau i fonitro lefelau staffio a sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser i ddiwallu anghenion gofal cleifion
- sicrhau bod gan staff fynediad at hyfforddiant perthnasol i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol o ansawdd da i gleifion
- parhau â'i ymdrechion i annog staff i fynychu cyfarfodydd goruchwyllo clinigol

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn cael eu dilyn yn unol â rheoliadau a safonau.

Gwnaethom edrych ar ddeg o ffeiliau (chwe aelod o staff cyflogedig a phedwar gwirfoddolwr) a chanfod bod yr hosbis wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn iddynt ddechrau yn eu swydd.

Rhoddwyd copïau o'r llawlyfr staff i ni. Roedd y llawlyfr yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iawn am yr hosbis, y strwythur trefniadol, cyfrifoldebau'r staff, a pholisïau a gweithdrefnau.

Bu newidiadau diweddar o fewn y tîm rheoli, a oedd wedi arwain at rai staff yn teimlo nad oeddent yn cael eu cefnogi gan y sefydliad. Dywedodd rhai staff wrthym hefyd fod y berthynas rhwng rheolwyr a staff wedi gwaethygu o ganlyniad i rai o'r newidiadau hyn.

Cytunodd 32 o staff a gwblhaodd yr arolwg eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwaith eu tîm/adran ac roedd 15 yn anghytuno. Roedd 22 o'r 47 a fynegodd farn yn cytuno eu bod yn rhan o benderfynu ar newidiadau a gyflwynwyd sy'n effeithio ar eu maes gwaith ac roedd 25 yn anghytuno.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal y maen nhw'n ei roi i gleifion ac roedd pedwar yn anghytuno.

Dywedodd 29 o ymatebwyr wrthym fod yr hosbis yn annog gwaith tîm ac roedd 17 yn anghytuno.

Dyweddod hanner yr ymatebwyr wrthym fod yr hosbis yn gefnogol a'i fod yn cefnogi staff i nodi a datrys problemau.

Dyweddod 32 o'r ymatebwyr wrthym fod gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn effeithiol ac roedd deg yn anghytuno.

Cytunodd 25 o staff a gwblhaodd yr arolwg fod yr hosbis yn cymryd camau cyflym i wella pan fo angen ac roedd 19 yn anghytuno.

Dyweddod 33 o ymatebwyr wrthym mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad ac roedd 11 yn anghytuno.

Dyweddod 36 o ymatebwyr wrthym fod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a leisiwyd gan gleifion ac roedd saith yn anghytuno.

Dyweddod 31 o'r ymatebwyr wrthym eu bod, ar y cyfan, yn fodlon ar ymdrechion eu sefydliad i'w cadw nhw / i gadw cleifion yn ddiogel ac roedd 12 yn anghytuno. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

“Dim diogelwch ar y safle dros nos a heb hysbysu staff o hyn.”

Dyweddod hanner y staff a gwblhaodd yr holiadur wrthym y byddent yn argymhell eu hosbis fel lle i weithio, ac roedd hanner yn anghytuno. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

“Mae'r hosbis wedi newid dros y ... diwethaf. Mae llawer o staff wedi gadael. Mae rhai staff wedi diflannu heb ddweud unrhyw beth. Mae'n anghyfforddus iawn ac nid yw'n gyfeillgar iawn.”

Dyweddod 36 o ymatebwyr wrthym, pe bai angen cymorth ar ffrind neu berthynas, y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan eu hosbis ac roedd wyth yn anghytuno.

Dyweddod 36 o aelodau staff a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod adborth profiad cleifion / defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gasglu o fewn eu sefydliad ac atebodd saith “ddim yn gwybod”.

Dyweddod 24 o ymatebwyr eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth profiad cleifion yn eu sefydliad, dywedodd 17 nad oeddent, ac atebodd tri “ddim yn gwybod”.

Dyweddod 21 o ymatebwyr wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus o fewn eu sefydliad, dywedodd naw nad oedd, ac atebodd 13 “ddim yn gwybod”.

Dyweddod 26 o aelodau staff a gwblhaodd yr arolwg wrthym y gellir dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i helpu gyda thasg anodd yn y gwaith ac roedd 18 yn anghytuno.

Dyweddod 29 o ymatebwyr wrthym fod eu rheolwr uniongyrchol yn rhoi adborth clir iddynt ar eu gwaith ac roedd 15 yn anghytuno.

Dyweddod 26 o ymatebwyr wrthym fod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu gwaith ac roedd 18 yn anghytuno.

Dyweddod 30 o ymatebwyr wrthym fod eu rheolwr uniongyrchol yn gefnogol mewn argyfwng personol ac roedd 14 yn anghytuno.

Dyweddod 43 o'r staff a gwblhaodd yr arolwg wrthym eu bod yn gwybod pwy yw'r uwch-reolwyr ac roedd dau yn anghytuno.

Dyweddod 24 o ymatebwyr wrthym fod uwch-reolwyr yn amlwg ac roedd 21 yn anghytuno. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

“... mae colli ffydd ym marn y rheolwyr yn cael ei waethygu gan eu habsenoldeb bron yn gyfan gwbl o ardaloedd clinigol a diffyg rhyngweithio â'r tîm clinigol.”

Dyweddod 17 o ymatebwyr wrthym fod y cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a staff yn effeithiol ac roedd 28 yn anghytuno. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

“... un o'm prif bryderon ar hyn o bryd yw cyfathrebu rhwng y tîm rheoli a staff y ward, sydd wedi'i gynnal yn wael yn y misoedd diwethaf ...”

“Nid wyf yn teimlo bod uwch-reolwyr bob amser yn hawdd mynd atynt.”

Dyweddod 14 o ymatebwyr wrthym fod uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys staff mewn penderfyniadau pwysig a gweithredu ar adborth staff, ac roedd 29 yn anghytuno.

Dyweddod 33 aelod o staff a gwblhaodd yr arolwg wrthym fod uwch-reolwyr yn ymroddedig i ofal cleifion ac roedd deg yn anghytuno.

Dyweddod 33 o ymatebwyr wrthym nad yw eu swydd yn niweidiol i'w hiechyd ac roedd 11 yn anghytuno.

Dywedodd 23 o ymatebwyr fod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol ar iechyd a llesiant ac roedd 19 yn anghytuno.

Dywedodd 22 aelod o staff a gwblhaodd yr arolwg staff wrthym eu bod yn cael cynnig cefnogaeth lawn mewn sefyllfaoedd heriol ac roedd 21 yn anghytuno.

Dywedodd 35 o ymatebwyr wrthym eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael ac roedd saith yn anghytuno.

Dywedodd 39 o ymatebwyr wrthym fod eu patrwm gwaith / patrwm oddi ar ddyletswydd presennol yn caniatáu cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith ac roedd pump yn anghytuno.

Dywedodd 29 aelod o staff a gwblhaodd yr arolwg eu bod wedi gweld camgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill yn ystod y mis diwethaf. Dywedodd 36 o staff wrthym, y tro diwethaf iddynt weld camgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad arall, y gwnaethon nhw neu gydweithiwr adrodd amdano, dywedodd dau nad oeddent wedi gwneud hynny, ac atebodd pump "ddim yn gwybod". Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

"Mae newidiadau diweddar mewn staffio wedi arwain at dîm nyrsio ward llai profiadol, gyda chryn dipyn yn llai o barhad, sydd ar adegau wedi arwain at ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd. Aethpwyd i'r afael â hyn drwy gyflwyno ffurflenni digwyddiad a thrafod hyn gyda rheolwr y ward, er nad wyf yn siŵr a oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud o ganlyniad."

"Gwallau meddyginiaeth critigol lluosog."

Dywedodd 43 o aelodau staff a gwblhaodd yr arolwg wrthym fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill ac roedd un yn anghytuno.

Dywedodd 32 o ymatebwyr wrthym fod y sefydliad yn trin adroddiadau o gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill yn gyfrinachol ac roedd 12 yn anghytuno.

Dywedodd 29 o ymatebwyr wrthym fod y sefydliad yn trin staff sy'n ymwneud â chamgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad arall yn deg ac roedd deg yn anghytuno.

Dywedodd 29 o aelodau staff a gwblhaodd yr arolwg wrthym, pan adroddir am gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu

ddigwyddiadau eraill, y bydd y sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto, ac roedd 13 yn anghytuno â hyn.

Dyweddodd 23 o ymatebwyr wrthym eu bod yn cael gwybod am gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau eraill sy'n digwydd yn y sefydliad, ac roedd 18 yn anghytuno.

Dyweddodd 26 o ymatebwyr wrthym eu bod yn cael adborth am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau eraill yr adroddwyd amdanynt ac roedd 16 yn anghytuno. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

“Er gwaethaf y camgymeriadau diweddar a adroddwyd, ychydig iawn o adborth sydd wedi'i ddarparu ar newidiadau o ganlyniad i'r rhain. Wedi dweud hynny ... mae'n gwbl bosibl y gallai newidiadau fod wedi'u gwneud, ond heb eu cyfathrebu.”

“Nid wyf yn teimlo bod gwybodaeth bob amser yn cael ei lledaenu'n briodol gan yr uwch-reolwyr yn dilyn digwyddiad. Mae hyn yn ymwneud ag adolygu digwyddiad neu adborth/newidiadau mewn ymateb i'r digwyddiad.”

“Rwy'n teimlo y byddai'n fuddiol cael rhywfaint o wybodaeth am y newidiadau a wnaed yn dilyn digwyddiad neu ddigwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd; hyd yn oed pe bai'n digwydd o fewn adran wahanol, mae'n dal i fod yn gyfle dysgu i eraill.”

“Adborth gwael gan reolwyr yn dilyn digwyddiadau a sut maen nhw wedi dysgu neu'n bwriadu gwella'r gwasanaeth.”

“Rydym wedi gofyn am adborth yn dilyn adroddiadau am ddigwyddiadau, ac maen nhw newydd ddechrau gwneud hyn yn dilyn cyfarfod staff.”

Dyweddodd 39 aelod o staff a gwblhaodd yr arolwg wrthym, pe baent yn pryderu am arferion clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i adrodd amdanynt a dywedodd tri na fyddent yn gwybod hynny.

Dyweddodd 26 o ymatebwyr wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am arferion clinigol anniogel, roedd chwech yn anghytuno, ac atebodd deg “ddim yn gwybod”.

Dywedodd 19 o ymatebwyr wrthym eu bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon, dywedodd 14 nad oeddent, ac atebodd naw "ddim yn gwybod".

Yn yr arolwg, gofynnwyd i staff a oeddent wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, neu 'arall'. Dywedodd dau aelod o staff eu bod wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf, ar sail oedran. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

"Nid wyf wedi bod yn destun gwahaniaethu fy hun ond rwyf wedi gweld gwahaniaethu ar sail unigolion â phroblemau iechyd meddwl."

"Rwyf wedi gweld yr hyn yr oeddwn yn ei weld yn wahaniaethu yn erbyn claf â phroblemau iechyd meddwl. ... wnes i uwchgyfeirio fy mhryderon ... Ni chafwyd unrhyw gyfathrebu gan reolwyr yr hosbis am yr achos. Ers y digwyddiad hwn, mae'r berthynas rhwng rheolwyr yr hosbis a'r tîm clinigol wedi bod dan fwy o straen."

Dywedodd 35 o ymatebwyr wrthym fod gan staff fynediad teg a chyfartal at gyfleoedd yn y gweithle (waeth beth fo'u hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol), roedd tri yn anghytuno, ac atebodd pump "gwell gen i beidio â dweud". Dywedodd 34 o ymatebwyr wrthym eu bod yn credu bod eu gweithle yn gefnogol i gydraddoldeb ac amrywiaeth, roedd tri yn anghytuno, ac atebodd pump "gwell gen i beidio â dweud".

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i wyth o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg am drefniadau'r Gymraeg yn y gwaith. Nododd dau ohonynt eu bod yn gwisgo'r bathodyn neu'r laniard 'Iaith Gwaith', mae un weithiau'n ei wisgo, ac mae pump ohonynt ddim yn ei wisgo. Dywedodd pedwar y gofynnir i gleifion nodi eu dewis iaith a dywedodd pedwar nas gofynnir iddynt. Mae un yn defnyddio'r Gymraeg yn weithredol mewn sgwrs bob dydd, mae tri weithiau'n gwneud hynny, ac mae pedwar yn peidio â gwneud hyn. Dywedodd saith nad ydynt yn cael y cyfle i gwblhau eu hyfforddiant yn Gymraeg a dywedodd un eu bod weithiau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ymatebion llai ffafriol y staff i rai o'r cwestiynau yn yr arolwg ar-lein ac ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd i wella'r berthynas waith rhyngddynt nhw a'r rheolwyr.

O ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y gwasanaeth i fonitro cydymffurfedd â rheoliadau a safonau perthnasol. Er nad oes argymhelliad penodol wedi'i wneud o ran hyn, y disgwyl yw y bydd tystiolaeth o welliant nodedig yn hyn o beth ar adeg yr arolygiad nesaf.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws manau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Bodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n briodol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ'r Eos

Dyddiad yr arolygiad: 29 a 30 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu, maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod manylion cyswllt AGIC yn cael eu cynnwys yn y datganiad o ddiben a'r ffolder gwybodaeth i gleifion.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 6. Atodlen 1 Rheoliad 24. (4) Safon 9. Gwybodaeth a chydysyniad cleifion	Mae gwybodaeth AGIC bellach yn y datganiad o ddiben ac yn y poster a'r llyfryn gwybodaeth i gleifion	Cynorthwydd Personol i'r Prif Swyddog Gweithredol Rheolwr Cyfathrebu	Cwblhawyd Ebrill 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod fformat y dogfennau yn y ffeiliau a gedwir yn ystafelloedd y cleifion yn canolbwyntio ar yr unigolyn i adlewyrchu sut y darperir gofal a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â dogfennau y cynllun gofal.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (1) (a) Safon 8.	Mae ffeiliau'r holl gleifion yn eu hystafelloedd yn adlewyrchu gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan roi disgrifiad da o'u cynlluniau gofal.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Ebrill 2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff allweddol yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei rhannu'n gywir ac yn fanwl.	Cynllunio a darparu gofal	Mae'r holl staff allweddol yn mynychu cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol gan gynnwys y tîm meddygol, nyrsio ac adsefydlu a myfyrwyr Adolygu cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	Cwblhawyd Ebrill 2022 Medi 2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn cael eu cofnodi'n fanwl yn nodiadau gofal y claf.		Caiff yr holl gynllunio rhyddhau ei gofnodi gan bob disgyblaeth yn y nodiadau. Bydd materion y cleifion mewnol sy'n cael eu trafod yng nghanlyniadau'r tîm amlddisgyblaethol yn cael eu nodi yn eu cofnodion Dosberthir nodiadau'r tîm amlddisgyblaethol i'r staff meddygol a nyrsio bob wythnos.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Arweinydd gweinyddol clinigol	Cwblhawyd Ebrill 2022 parhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff sy'n gweithio yn yr uned gofal dydd yn cael gwybod am y trefniadau ar gyfer rhyddhau er mwyn iddynt allu cynllunio'r gwasanaethau gofal dydd yn unol ag anghenion cleifion unigol.</p>		<p>Mae cydweithredu rhwng y gwasanaethau yn gweithio'n dda ac mae prosesau wedi'u rhoi ar waith.</p>	<p>Rheolwr y Ward Dirprwy Reolwr y Ward Arweinydd gwasanaeth dydd Clerc y ward</p>	<p>Cwblhawyd Ebrill 2022</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn cleifion.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Safon 2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol</p>	<p>Rydym wedi adolygu ac ni allwn ddod o hyd i unrhyw doriad o gwbl i Safon 2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.</p>	<p>Prif Swyddog Gweithredol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>Cwblhawyd Ebrill 2022</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn cael ei hysbysebu mewn ffordd fwy amlwg yn yr hosbis.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Safon 5. Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth</p>	<p>Ym mhob ardal mae posteri ac arnynt luniau'r staff o amgylch yr hosbis i hysbysu cleifion, gofalywyr a theulu, am y weithdrefn os bydd angen iddynt wneud cwyn</p> <p>Mae ffurflen adborth i ffrindiau a theulu hefyd wedi'i rhoi ar waith ar gyfer yr holl wasanaethau, ac adroddir arni wedyn</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>Cwblhawyd Ebrill 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		bob mis mewn cyfarfod effeithiolrwydd clinigol		
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod nodwyddau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio yn yr hosbis i leihau'r risg o niwed i staff a chleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (2) Safon 22. Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch 12. Yr amgylchedd 4. Trefniadau cynllunio at argyfyngau	Hysbyswyd yr holl staff o bwysigrwydd peidio â gorlenwi'r biniau offer miniog Cerdded o gwmpas yn rheolaidd yn rheoli heintiau gyda rheolwr y ward neu ddirprwy reolwr y ward	Cyfarwyddwr Clinigol Rheolwr y Ward Dirprwy Reolwr y Ward	Cwblhawyd Ebrill 2022 Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y gellir tynnu gorchuddion y rheiddiaduron yn hawdd er mwyn eu glanhau'n effeithiol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (8)	Mae'r adran cyfleusterau wedi dechrau tynnu gorchuddion rheiddiaduron ac maent wedi'u glanhau (25)	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheolwr Cyfleusterau	I'w gwblhau erbyn 31 Hydref 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Safon 13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae hyn wedi achosi difrod felly bydd gorchuddion pob rheiddiadur yn cael eu newid am un newydd		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r broses ar gyfer gwirio cyffuriau a reolir i leihau'r risg o gamgymeriadau neu hepgoriadau.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (5) (a) Safon 15. Rheoli meddyginiaethau	Mae llyfrau cyffuriau a reolir wedi cael eu lleihau i bedwar Mae'r cyffuriau a reolir yn cael eu gwirio bob nos (un llyfr bob nos) Bob mis mae pob llyfr a chyffuriau a reolir yn cael eu gwirio	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Fferyllydd Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Ebrill 2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu cynnwys y troli dadebru i sicrhau ei fod yn bodloni canllawiau Cyngor Dadebru'r DU o ran y cyffuriau sydd eu hangen i drin anaffylacsis mewn argyfwng.		Mae'r holl staff clinigol hyfforddedig bellach wedi derbyn hyfforddiant Cynnal Bywyd Canolradd Mae'r holl staff clinigol nad oedd wedi'u hyfforddi bellach wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Bywyd Sylfaenol Darparodd y swyddog / hyfforddwr dadebru yr holl wybodaeth am yr offer a'r cyffuriau i ni ailstocio ein troli gan fod y staff nawr wedi cael hyfforddiant Cynnal Bywyd Canolradd	Rheolwr y Ward Dirprwy Reolwr y Ward Arweinydd gwasanaeth dydd	Cwblhawyd Mehefin 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r polisi trallwysu gwaed.	Rheoliad 15. (6) Safon 17. Rheoli gwaed	Y polisi wedi'i adolygu a diwygiadau wedi'u gwneud Cymeradwywyd mewn cyfarfod effeithiolrwydd clinigol	Arweinydd y gwasanaeth dydd	Mehefin 2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff sy'n ymwneud â'r broses drallwysu yn cynnal asesiadau cymhwysedd rheolaidd.		Pob aelod o staff i fynychu hyfforddiant ym Mhrifysgol Betsi Cadwaladr	Dirprwy Reolwr y Ward Arweinydd gwasanaeth dydd	parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl offer meddygol a ddefnyddir yn yr hosbis yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd a bod cofnodion cynnal a chadw / gwasanaethu cyfredol yn cael eu cadw.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (2) Safon 16. Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Polisi gweithredu safonol ar waith wedi'i gymeradwyo mewn cyfarfod effeithiolrwydd clinigol	Rheolwr Cyfleusterau	Cwblhawyd Mehefin 2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod proses ar waith i sicrhau bod arsylwadau dyddiol yn cael eu cynnal, a'u cofnodi, mewn perthynas â'r cleifion hynny y nodwyd y dylid eu	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Cyflawnir arsylwadau dyddiol ar gyfer yr holl gleifion sydd angen uwchgyfeirio	Rheolwr y Ward Dirprwy Reolwr y Ward	Cwblhawyd Mawrth 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
huwchgyfeirio neu dderbyn triniaeth bellach pe bai eu cyflwr yn gwaethygu neu'n newid.	Rheoliad 23. (1) Safon 7. Gofal diogel a chlinigol effeithiol		Nyrs Ymgynghorol Meddygon	
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y troli sy'n cynnwys nodiadau'r cleifion yn sownd wrth wal pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23. (2) (a) Safon 20. Rheoli cofnodion	Mae'r troli nodiadau bellach yn sownd wrth y wal	Rheolwr Cyfleusterau y	Cwblhawyd Ebrill 2022
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y cyflwynir proses ôl-drafodaeth ffurfiol i'r tîm ar ôl dod i gysylltiad â materion neu ddigwyddiadau cymhleth.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19. (2) (c) Safon 23. Ymdrin â phryderon a	Mae'r ôl-drafodaeth ffurfiol cyntaf wedi'i gynnal i drafod mater cymhleth Bydd y materion hyn yn cael sylw ffurfiol pan fyddant yn codi	Hwylusydd Llif y Cleifion	Cwblhawyd a pharhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	rheoli digwyddiadau			
Rhaid i'r darparwr cofrestredig barhau i fonitro lefelau staffio a sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser i ddiwallu anghenion gofal cleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 20. (1) a (2) Safon 25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Mae lefelau staffio yn cael eu monitro a'u cynyddu yn ôl aciwtedd.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Rheolwr y Ward Dirprwy Reolwr y Ward Arweinydd gwasanaeth dydd Nyrs Ymgynghorol	parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan y staff fynediad at hyfforddiant perthnasol i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol o ansawdd da i gleifion.		Mae popeth gorfodol yn gyfredol – electronig Wedi gweithredu cwrs gofal lliniarol arbenigol ar gyfer cynorthwywyr gofal iechyd Cwrs gofal lliniarol arbenigol ar gyfer Nyrsys Cofrestredig Cyffredinol Mae'r staff yn mynychu diwrnodau astudio	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Rheolwr y Ward Arweinydd gwasanaeth dydd	Mehefin 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cefnogi ac annog mwy o nyrsys sy'n rhagnodwyr		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig barhau â'i ymdrechion i annog y staff i fynychu cyfarfodydd goruchwyllo clinigol.		Polisi Goruchwylloeth Glinigol wedi'i ddiweddarau a'i gymeradwyo mewn cyfarfod effeithiolrwydd clinigol i'w weithredu ar draws gwasanaethau clinigol	Uwch-ymarferwyr Nyrsio Hwylusydd Llif y Cleifion	30 Mehefin 2022 30 Medi 2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ymatebion llai ffafriol y staff i rai o'r cwestiynau yn yr arolwg ar-lein ac ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd i wella'r berthynas waith rhyngddyn nhw a'r rheolwyr.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19. (2) (e) Safon 24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu	Bydd y Prif Swyddog Gweithredol gyda'r Cyfarwyddwr gwasanaethau clinigol yn ymweld ag ardaloedd clinigol bob wythnos Y tîm rheoli i wneud eu hunain yn fwy gweladwy i'r cleifion ac i'r staff Gwella cyfathrebu – cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar draws yr hosbis Integreiddio pob gwasanaeth	Tîm Rheoli Gweithredol a Phob arweinydd gwasanaeth	parhaus

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Mandy Cunningham

Swydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol

Dyddiad: 21 Mehefin 2022